# CANLLAW GWYBODAETH I YMWELWYR

**Dyddiad:** 7 a 8 Ebrill 2025
**Lleoliad: Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru, Casnewydd**

UCAS DISCOVERY UK TOUR



# CYRRAEDD YMA

UCAS

## Ydych chi'n teithio mewn car neu ar fws?

Mae ICC Cymru ychydig oddi ar gyffordd 24 yr M4, ac mae arwyddion clir iddo. Y cod post ar gyfer y llyw lloeren yw NP18 1HQ.


## Ble alla i barcio fy nghar?

Mae maes parcio ar y safle gyda digon o leoedd ar gael. Sylwch fod y ffioedd parcio isod yn berthnasol. Dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid traffig pan fyddwch chi'n cyrraedd. Cofiwch fod ICC Cymru yn lleoliad heb arian parod.

Mae rhagor o wybodaeth ar wefan ICC Cymru.

<u>Ffioedd</u>

| | |
|---|---|
| 0 – 1 awr | Am ddim |
| 1 –5 awr | £7.00 |
| 5 – 8 awr | £12.00 |
| 8 – 12 awr | £16.00 |
| 12 – 24 awr | £20.00 |



# CYRRAEDD YMA

UCAS

## Ble alla i barcio bws neu fws mini?

Dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid traffig pan fyddwch chi'n cyrraedd.
Os ydych chi'n teithio ar fws, ewch i mewn i'r safle drwy'r brif fynedfa, a bydd stiwardiaid traffig yn eich cyfeirio at yr ardal gollwng a chasglu. Ar ôl i'ch myfyrwyr adael, bydd angen i'r bws adael yn gyflym gan nad oes lle i fysiau barcio ar y safle. Byddwn ni'n anfon pasys bysiau wythnos cyn y digwyddiad. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dangos y pas yn y ffenestr flaen pan fydd y bws ar y safle, er mwyn helpu'r tîm traffig.

Gan ein bod yn disgwyl llawer o ymwelwyr, peidiwch â chyrraedd fwy na 15 munud cyn amser eich sesiwn.

Gwnewch yn siŵr bod eich myfyrwyr yn gwybod faint o'r gloch a ble i gwrdd â chi ar gyfer eu taith yn ôl. Pan fyddwch chi'n barod i adael yr arddangosfa, gwnewch yn siŵr bod eich holl fyfyrwyr gyda'i gilydd, ac ewch yn ôl i'r man casglu. Oherwydd y nifer fawr o fysiau, mae'n hanfodol bod cyfarwyddiadau'r stiwardiaid traffig yn cael eu dilyn bob amser. Os ydych chi'n teithio mewn bws mini, bydd nifer cyfyngedig o lefydd i chi barcio a byddant ar gael ar sail y cyntaf i'r felin. Dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid traffig ar y safle.

## Teithio ar drên?

Mae gorsaf drenau Casnewydd 4-6 milltir o'r lleoliad, sy'n daith 12-15 munud mewn tacsi. Ystyriwch archebu tacsi ymlaen llaw yn ôl yr angen gan nad oes safle tacsis o fewn pellter cerdded i'r lleoliad.

Mae rhagor o wybodaeth am wasanaethau trên ar gael yn [www.nationalrail.co.uk](http://www.nationalrail.co.uk).

# YN YSTOD EICH YMWELIAD

UCAS

## Pan fyddwch chi'n cyrraedd

Ar ôl cyrraedd, ewch i brif fynedfa ICC Cymru.  Gwnewch yn siŵr bod eich tocyn yn barod i'w sganio i fynd i mewn i'r digwyddiad. Bydd angen i bawb fod wedi cofrestru ymlaen llaw ac wedi lawrlwytho eu tocyn cyn mynd i mewn i'r lleoliad. Os yw sgrin eich ffôn wedi cracio, dewch â chopi wedi'i argraffu o'r tocyn i'w sganio.

Mae eich tocyn arddangos yn bersonol i chi, ac ni ddylid ei rhannu gydag aelodau eraill o'r grŵp gan y gallai hynny beryglu diogelwch eich data. Er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau diogelu data, mae'n rhaid i unigolion yn ein harddangosfeydd ddefnyddio eu tocyn eu hunain – rhaid gwneud hynny wrth fynd i mewn, ac wrth ymweld â stondinau arddangoswyr. Gofynnir i unrhyw un y canfyddir eu bod yn torri'r rheolau adael y digwyddiad ac ail-gofrestru os ydyn nhw'n dymuno dod yn ôl i mewn.

Cofiwch y gallai'r lleoliad gynnal archwiliad ohonoch chi a'ch bagiau. Diolch i chi am eich amynedd yn ystod y cyfnod hwn. Peidiwch â dod ag unrhyw eitemau miniog (gan gynnwys cwmpawdau a siswrn) i'r lleoliad. Bydd y staff diogelwch yn eu cymryd oddi arnoch, ac efallai na fyddwch chi'n gallu eu cael yn ôl.



# YN YSTOD EICH YMWELIAD

UCAS

## WiFi

Mae rhwydwaith WiFi agored ar gael yn y digwyddiad hwn, ond ni ellir gwarantu cysylltiad dibynadwy. Dewiswch WiFi Gwestai a llenwi'r ffurflen sylfaenol i gael mynediad.

## Hygyrchedd

Mae manylion llawn am hygyrchedd ar gael ar wefan ICC Cymru, drwy glicio yma.

## Y Sesiwn Holi ac Ateb Fawr a Sgyrsiau Pwnc

Bydd sgyrsiau a gweithdai i fyfyrwyr yn cael eu cynnal drwy gydol y digwyddiad. Bydd y rhain i gyd yn y brif neuadd a bydd arwyddion clir atynt. Mae rhaglen lawn o sgyrsiau ar gael ar dudalen we'r digwyddiad.



## Bwyd a Diod

Bydd lluniaeth ar gael i ymwelwyr ei brynu y tu mewn i'r brif neuadd, ac yn y lolfa i fyny'r grisiau i arddangoswyr ac athrawon, a bydd arwyddion clir i'r llefydd hyn. Cofiwch fod ICC Cymru yn lleoliad heb arian parod.

Bydd ardal eistedd hefyd ar gyfer y rheini y byddai'n well ganddynt ddod â phecyn bwyd gyda nhw.

## Staff y digwyddiad

Os bydd gennych gwestiynau cyffredinol i'w gofyn yn ystod y digwyddiad (ee sut i gael hyd i'r toiledau), gofynnwch i unrhyw un o staff y digwyddiad a fydd yn gwisgo crysau-t â brand UCAS.

# RHAG OFN

UCAS

### Trefnwyr
Mae swyddfa’r trefnydd yn y cyntedd gyferbyn â’r man cofrestru ar y safle. Bydd aelod o’r Tîm Digwyddiadau yn y swyddfa drwy gydol y digwyddiad.

### Damweiniau a damweiniau fu bron â digwydd
Os byddwch chi’n cael damwain neu bron â chael damwain, neu os byddwch chi'n gweld hynny'n digwydd i rywun arall ar y safle, rhowch wybod i swyddfa’r trefnydd ar unwaith, sydd wedi’i leoli gyferbyn â’r man cofrestru yn y cyntedd.

### Trefniadau mewn argyfwng
Os bydd yr adeilad yn cael ei wagio, dilynwch gyfarwyddiadau staff diogelwch yr arena, a gadael yr adeilad drwy'r allanfa agosaf.

### Cymorth cyntaf
Mae ystafell feddygol yn y lleoliad, gyda staff sy'n gymwys i roi cymorth cyntaf. Os oes angen cymorth meddygol arnoch, cysylltwch â’r swyddfa gyferbyn â man cofrestru’r safle yn y cyntedd.



# CWESTIYNAU CYFFREDIN

UCAS

- **Oes rhywle i mi gadw fy nghôt a fy magiau?**

Yn anffodus, nid oes ystafelloedd cotiau ar gael i ymwelwyr yn ein digwyddiadau. Rydym yn cynghori ymwelwyr i osgoi dod â bagiau mawr i'r digwyddiad.

- **Pa yswiriant sydd ar waith ar gyfer y digwyddiad?**

Mae gan y trefnydd yswiriant atebolrwydd gweithwyr a chyhoeddus digonol. Er bod y trefnydd yn cymryd pob cam posib i ddiogelu eiddo ymwelwyr pan fydd digwyddiad yn cael ei gynnal, nid yw'n gyfrifol am unrhyw golledion na difrod. Dylai arweinwyr y grwpiau wneud yn siŵr bod ganddynt yswiriant atebolrwydd cyflogwyr a chyhoeddus, yn unol â'r telerau ac amodau archebu.

- **Beth sy'n digwydd i unrhyw eiddo coll?**

Bydd yr holl eiddo a fydd yn cael ei ganfod yn y neuadd yn cael ei roi i Swyddfa'r Trefnwyr, a bydd yn cael eu pasio ymlaen i'r lleoliad a'i gadw am 14 diwrnod. Ar ôl 14 diwrnod, os nad oes hawliad wedi'i wneud mewn perthynas â'r eiddo hwnnw gan unrhyw berson, bydd staff y lleoliad yn ystyried bod yr eiddo wedi'i adael a bod ganddynt yr hawl i'w waredu.

- **Ydw i'n gallu ysmygu/fepio ar y safle?**

Mae gan ICC Cymru bolisi dim ysmygu llym yn y lleoliad. Hoffai ofyn i chi gydweithredu'n llwyr i sicrhau y cydymffurfir â hyn. Mae hyn yn cynnwys e-sigarennau.

- **Pa ddiogelwch fydd yno?**

Bydd diogelwch ar gael drwy gydol y digwyddiad. Os oes rhywun wedi dwyn rhywbeth, rhowch wybod i swyddfa'r trefnwyr ar unwaith.

- **Ble gallaf gael copi o'r asesiad risg ar gyfer y digwyddiad?**

Mae'r trefnydd wedi cwblhau asesiad risg ar gyfer y digwyddiad. Gallwch gael copi ohono drwy anfon e-bost i events@ucas.ac.uk.




UCAS

# MANYLION CYSWLLT

## Y lleoliad

Canolfan Gynadledda
Ryngwladol Cymru
Y Coldra
Heol Catsash
Casnewydd
NP18 1HQ

## Manylion cyswllt

Cyn y digwyddiad, ffoniwch 01242 544 808, neu anfon e-bost at events@ucas.ac.uk

## Ymholiadau cyffredinol ar y safle

Bydd llysgenhadon y digwyddiad, a fydd yn gwisgo crysau-t UCAS, ar gael i roi cymorth a chyngor os oes gennych unrhyw ymholiadau.

**Diolch am gofrestru i ddod i arddangosfa UCAS Discovery Casnewydd.**